

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2020

Dyddiad yr adolygiad nesaf: Mawrth 2023

Cynulleidfa - y cyhoedd, heb fod yn gyfrinachol

Mae'r polisi hwn yn cwmpasu gwaith Oxfam Cymru, ynghyd ag ymgyrchoedd a gwaith polisi a chyfathrebu Oxfam GB a gyflawnir yng Nghymru. Nid yw'r polisi hwn yn cwmpasu gwaith is-adran Fasnachu Oxfam GB.

Cyd-destun

Mae Oxfam yn gweithio mewn 90 o wledydd gan gynnwys Cymru, ac mae ein gwaith yng Nghymru yn cael ei arwain gan Oxfam Cymru.

Mae'r Polisi hwn ar yr Iaith Gymraeg ar gyfer Oxfam GB yn canolbwyntio'n bennaf ar y gwaith a gyflawnir gan Oxfam Cymru, ond mae'n berthnasol hefyd i adrannau eraill Oxfam GB pan fyddant yn gweithio gydag Oxfam Cymru i gyflawni gwaith Oxfam yng Nghymru.

Oxfam GB yw perchennog y polisi hwn a'i nod yw sicrhau bod sefydliad cyfan Oxfam yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu â phobl Cymru yn Gymraeg ac yn Saesneg, lle bynnag y bydd hynny'n bosibl, a lle bydd ein cyllidebau'n caniatáu hynny.

Mae Oxfam yn gweithio i ddileu tlodi: mae canran uwch o dlodi yng Nghymru nag mewn unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig ac felly mae gallu cyfathrebu â phobl Cymru yn y ddwy iaith o'r pwys mwyaf i ni fel sefydliad.

Rhagarweiniad

Mae Cymru'n wlad ddwyieithog ac mae Oxfam wedi ymrwymo i sicrhau ein bod ni'n cyfathrebu â phobl Cymru yn Gymraeg ac yn Saesneg lle bynnag y bydd hynny'n bosibl.

Mae'r Gymraeg yn rhan bwysig o hunaniaeth ddiwylliannol yng Nghymru ac felly dylai'r iaith fod wrth wraidd ein gwaith. Mae'r iaith hefyd yn arf pwysig a defnyddiol i ymgysylltu â chymunedau a chynulleidfaedd newydd yng Nghymru ac i ennyn rhagor o gefnogaeth i'n gwaith.

Yn ôl Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, ac ar sail Cyfrifiad 2011, mae 23% o blant rhwng 3 a 4 blwydd oed, 38% o blant rhwng 5 a 9 blwydd oed a 42% o blant rhwng 10 a 14 blwydd oed yn gallu siarad Cymraeg. Mae rhyw 600,000 o bobl yn siarad Cymraeg yng Nghymru ac mae Llywodraeth Cymru wedi pennu targed i sicrhau bod miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae Oxfam yn cyhoeddi'r Polisi hwn ar yr Iaith Gymraeg i ddangos ein cefnogaeth a'n hymrwymiad clir i'r iaith ac i sicrhau bod ein gwaith yn cael ei rannu'n ddwyieithog a'i fod yn hygyrch i bobl ledled Cymru.

Cyflawnir rhan bwysig o'n gwaith yng Nghymru gyda'r cyhoedd a chan ymgysylltu â phobl Cymru. Rydym yn ymgyrchu, yn darparu addysg mewn ysgolion, yn mynd i ddigwyddiadau ac yn gweithio'n uniongyrchol gyda phobl mewn cymunedau ar hyd a lled y wlad. Mae'n bwysig felly fod Oxfam yn gallu cyfathrebu â phobl Cymru yn eu dewis iaith lle bynnag y bydd hynny'n bosibl.

Polisi Oxfam ar gyfer staff a gwirfoddolwyr Oxfam Cymru sy'n gweithio yn ein swyddfa yng Nghaerdydd/yn gweithio gartref/yn gweithio ar leoliad

1. Cyfathrebu Allanol

1.1 Cyfathrebu dros y Ffôn

Bydd holl staff a gwirfoddolwyr Oxfam Cymru yn ateb pob galwad ffôn â chyfarchiad dwyieithog. Bydd hyn yn berthnasol hefyd i'r cyfarchiad a gaiff ei recordio ar ein negeseuon peiriant ateb.

Cyfrifoldeb Swyddog y Cyfryngau a Chyfathrebu Oxfam Cymru fydd briffio staff Oxfam Cymru a rhoi hyfforddiant iddynt ynghylch cyfarchion dwyieithog syml. Darperir hyfforddiant trwy gyfuniad o ddulliau wyneb yn wyneb a dulliau rhithwir fel bod staff a gwirfoddolwyr, boed yn ddi-Gymraeg neu'n ddysgwyr, yn gallu gwrandao ar y cyfarchion hyn a'u dysgu.

Bydd Oxfam Cymru yn sicrhau bod staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio ar ran Oxfam Cymru yn gwybod pa aelodau o'r staff/tîm gwirfoddoli sy'n gallu cynnal sgysiau yn Gymraeg. Os bydd y galwr am barhau â'r sgwrs yn Gymraeg, dylai staff Oxfam Cymru gyfeirio'r galwr at unrhyw staff/wirfoddolwyr sydd ar gael sy'n siarad Gymraeg.

Os na fydd aelodau o staff/gwirfoddolwyr Cymraeg ar gael, caiff y galwr ddewis derbyn galwad yn ôl ar adeg neu ar ddyddiad arall gan aelod o staff/wirfoddolwr sy'n siarad Gymraeg. Dylid blaenoriaethu'r alwad yn ôl gan fod angen trin ceisiadau Cymraeg yn gyfartal. Mae'n bwysig o hyd fod opsiwn i'r galwr barhau â'r sgwrs yn Saesneg, a'i fod yn derbyn gwybodaeth am beth sy'n digwydd.

1.2 Gohebiaeth Ysgrifenedig

Mae hyn yn cyfeirio at ein holl ohebiaeth ysgrifenedig **allanol**.

1.3 Llofnodion Negeseuon E-bost

Rhaid i lofnodion e-bost a negeseuon allan o'r swyddfa tîm Oxfam Cymru fod yn ddwyieithog, gan gynnwys unrhyw ddelweddau sy'n rhoi cyhoedduswydd i ymgyrchoedd perthnasol Oxfam.

Os yw aelod o staff yn siarad Gymraeg, bydd y llofnod e-bost hefyd yn cynnwys logo cydnabyddedig y Gymraeg (Iaith Gwaith) a ddarperir gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

Bydd Swyddog y Cyfryngau a Chyfathrebu Oxfam yn darparu templedi ac adnoddau, a bydd yn gweithio gyda tîm adnoddau digidol Oxfam GB i sicrhau bod blychau llofnod dwyieithog ar gael a'u bod yn cyd-fynd ag ymgyrchoedd cyfredol.

1.4 Negeseuon E-bost a Llythyrau

Os bydd Oxfam Cymru yn derbyn neges e-bost neu lythyr yn Gymraeg, rhaid i ni geisio ymateb yn Gymraeg bob tro. Os na fydd aelod Cymraeg o'r tîm ar gael i ddelio ar unwaith â'r cais, dylai'r tîm egluro yn Saesneg y bydd aelod Cymraeg o'r tîm yn ymateb cyn gynted ag y bydd ar gael. Rhaid rhoi blaenoriaeth i'r ateb hwn gan fod yn rhaid i ni drin gohebiaeth Gymraeg a Saesneg yn gyfartal.

1.5 Deunyddiau Cyhoeddus

Rhaid i'r holl ddeunyddiau cyhoeddus ysgrifenedig, gan gynnwys datganiadau i'r wasg, cynnwys ar-lein ar gyfer y blog, y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol, adroddiadau a phapurau ac unrhyw ddeunyddiau ysgrifenedig eraill a gynhyrchir gan Oxfam Cymru at ddefnydd y cyhoedd ac er gwybodaeth i'r cyhoedd, fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd, lle bynnag y bydd hynny'n bosibl.

Os bydd angen, bydd Oxfam Cymru yn defnyddio rhestr Oxfam o gyfieithwyr a golygyddion Cymraeg cymeradwy i helpu â'r gwaith hwn. Mae angen ymgorffori hyn mewn amserlenni a chyllidebau pan gaiff prosiectau eu cynllunio.

1.6 Deunyddiau Marchnata a Hyrwyddo

Rhaid i'r holl ddeunyddiau ynghylch gwaith Oxfam Cymru a rennir â'r cyhoedd yng Nghymru, boed ar-lein neu mewn digwyddiadau cyhoeddus yng Nghymru, fod yn ddwyieithog lle bynnag y bo modd.

Wrth weithio ar ymgyrchoedd ledled y Deyrnas Unedig sy'n berthnasol i Gymru, bydd y tîm digidol yn rhoi o leiaf un ffeil jpeg, ffeithlun neu ddeunydd marchnata perthnasol Cymraeg/dwyieithog i Swyddog y Cyfryngau a Chyfathrebu Oxfam Cymru. Cyfrifoldeb Oxfam Cymru fydd darparu'r testun Cymraeg yn ôl yr angen.

Rhaid i dimau ymgyrchoedd a chynulleidfaoedd Oxfam Cymru ac Oxfam GB ganiatáu amser ychwanegol i gynllunio a datblygu adnoddau dwyieithog ar gyfer digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru. Bydd rhai gwyliau a digwyddiadau yng Nghymru yn caniatáu deunyddiau cyfathrebu Cymraeg yn unig. Mae Swyddog y Cyfryngau a Chyfathrebu Oxfam Cymru yn gyfrifol am nodi'r angen am ddeunyddiau marchnata a chyfathrebu Cymraeg yn unig a rhai dwyieithog, a'r gyllideb ar eu cyfer.

2. Cynnwys Ar-lein

2.1 Gwefan

Mae gwbyodaeth am waith Oxfam yng Nghymru ar gael trwy dudalennau gwe Oxfam Cymru ar brif wefan Oxfam GB. Bydd yr wybodaeth hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg lle bynnag y bo modd. Mae tudalennau gwe Oxfam Cymru yn cynnig dewis iaith amlwg ac mae Oxfam yn cydnabod mai'r dull llwybro gorau o ran ieithoedd yw cynnig dewis iaith ar bob tudalen lle bydd fersiwn gyfochrog yn bod. Cyhoeddir y ddwy fersiwn ar yr un pryd lle bynnag y bo modd.

2.2 Blog

Bydd pob blogiad ar dudalennau gwe Oxfam Cymru yn cael ei bostio yn y ddwy iaith ar yr un pryd, lle bynnag y bo modd. Boed y blogiad yn gyfweiliad â rhywun di-Gymraeg neu'n gyfweiliad â rhywun Cymraeg, dylai'r cynnwys gael ei gyfieithu bob tro er mwyn sicrhau bod ein darllenwyr yn gallu derbyn cynnwys yn eu dewis iaith a sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn gweld y cynnwys ac yn ymgysylltu ag ef.

2.3 Postiadau ar y Cyfryngau Cymdeithasol

Dylai holl bostiadau **gwreiddiol** Oxfam Cymru ar y cyfryngau cymdeithasol gael eu rhannu yn ddwyieithog neu yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd, lle bynnag y bydd hynny'n bosibl. Os na all aelodau o'r staff rannu postiadau o gyfarfodydd a digwyddiadau ac ati yn y ddwy iaith, dylent rannu'r postiadau hyn o dan eu henwau eu hunain yn hytrach na defnyddio prif gyfrif Oxfam Cymru ond yr ydym yn annog staff i dagio @OxfamCymru bob amser. Lle bydd modd, dylid cynllunio cynnwys a'i gyfieithu ymlaen llawn er mwyn gallu rhannu postiadau o brif gyfrif Oxfam Cymru. Cyfrifoldeb y staff sydd yn y digwyddiad yw sicrhau bod cyfieithiadau priodol yn cael eu trefnu ymlaen llaw, gan ddefnyddio gwbyodaeth arbenigol staff/gwirfoddolwyr Cymraeg neu ein rhestr o gyfieithwyr cymeradwy.

Os byddwn yn rhannu cynnwys o gyfrif Oxfam GB neu o gyfrifon tebyg eraill, gellir rhannu'r cynnwys yn yr iaith wreiddiol, heb ei gyfieithu, ar yr amod na fydd sylwadau pellach yn cael eu hychwanegu. Dylai sylwadau ychwanegol gan Oxfam Cymru gael eu rhannu yn y ddwy iaith lle bynnag y bo modd.

2.4 Fideos a Phodlediadau

Mae Oxfam GB yn cynhyrchu llawer o fideos a phodlediadau er mwyn rhannu straeon am y bobl rydym ni'n gweithio gyda nhw a thynnu sylw at ymgyrchoedd cyfredol. Os yw'r sawl sy'n cael cyfweiliad yn siarad Cymraeg ac

os yw'r cynnwys ar gael neu'n bosibl yn y ddwy iaith, bydd Oxfam yn sicrhau bod gennym fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o'r fideo/podlediad. Bydd Oxfam Cymru yn hwyluso ac yn cynorthwyo'r tîm digidol yn ôl yr angen.

Dylid trafod y mater hwn ymlaen llaw a dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod cwestiynau ac ati ar gael yn Gymraeg. Os bydd y cynnwys ar gael yn Saesneg yn unig, byddwn yn rhannu'r fersiwn Saesneg yn unig, ond byddwn yn sicrhau bod disgrifiadau o'r fideo neu'r podlediad, sylwadau gan Oxfam Cymru ar y cyfryngau cymdeithasol neu gyfeiriadau gennym at y cynnwys yn cael eu darparu yn y ddwy iaith.

3. Digwyddiadau Cyhoeddus

Os bydd Oxfam Cymru yn trefnu digwyddiadau ar gyfer y cyhoedd neu os bydd Oxfam Cymru yn cymryd rhan mewn digwyddiadau cyhoeddus i drafod ein gwaith, rhoi cyhoeddusurwydd iddo neu ymgyrchu drosto, byddwn yn blaenoriaethu llunio deunyddiau marchnata neu hyrwyddo dwyieithog.

Cyfrifoldeb y cynrychiolydd Oxfam a fydd yn bresennol yn y digwyddiad yw trafod y gofynion hyn ymlaen llaw â Swyddog y Cyfryngau a Chyfathrebu Oxfam Cymru. Bydd angen cynllunio'r gwaith hwn a'i drafod mor fuan â phosibl er mwyn sicrhau bod adnoddau a chyllidebau yno yn barod.

Os yw'n ddigwyddiad dwyieithog neu'n ddigwyddiad cyfrwng Gymraeg yn unig, dylai staff Oxfam Cymru drafod hynny mor fuan â phosibl â Swyddog y Cyfryngau a Chyfathrebu Oxfam Cymru, er mwyn sicrhau y gallwn gyfathrebu a chyflwyno ein gwaith yn y ddwy iaith i fodloni gofynion y digwyddiad a'r trefnwyr.

4. Addysg

Mae dysgu pobl Cymru am ein hymgyrchoedd ac am ein gwaith yng Nghymru a'r byd yn agwedd bwysig ar waith Oxfam Cymru. Mae hynny'n cynnwys gweithio gyda Chyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC) yn uniongyrchol i lunio adnoddau addysgol â ffocws Cymreig a gweithio gydag Adran Addysg Oxfam GB i addasu adnoddau addysgol ar gyfer ysgolion yng Nghymru, gan gynnwys canllawiau i athrawon.

Mae gan Oxfam Cymru rywfaint o gyllideb i gyfieithu ein hadnoddau ar gyfer ysgolion yng Nghymru. Cyfrifoldeb Cynghorydd Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang Oxfam Cymru yw sicrhau bod yr adnoddau hyn yn cael eu cyfieithu gan gyfieithwyr ar restr gymeradwy Oxfam a bod y gyllideb yn cael ei rheoli a'i defnyddio'n effeithiol i sicrhau bod ysgolion cyfrwng Gymraeg a chyfrwng Saesneg yn elwa o'n gwaith.

Mae arwain gweithdai addysgol mewn ysgolion yn rhan o rôl Cynghorydd Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang Oxfam Cymru. Mae Oxfam Cymru yn deall pa mor bwysig yw rhannu ein gwaith a'n gwybodaeth â phobl ifanc yng Nghymru ac ymgysylltu â chenedlaethau iau. Pan fydd hynny'n bosibl, mae Oxfam Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod ein gweithdai addysgol ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn sicrhau bod pob person ifanc yng Nghymru yn gallu ymgysylltu â ni ac elwa o'n gwybodaeth arbenigol.

5. Recriwtio Staff

Mae Oxfam Cymru yn sylweddoli bod y Gymraeg yn sgîl pwysig sy'n ein helpu ni i gyflawni ein gwaith a'n hymgyrchoedd a chyfleu ein negeseuon yng Nghymru ac rydym yn sylweddoli bod angen mwy o staff a gwirfoddolwyr Gymraeg ar Oxfam Cymru. O ganlyniad, byddwn yn parhau i hysbysebu ein swyddi yn ddwyieithog a byddwn yn dweud a yw'r Gymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol yn dibynnu ar y swydd dan sylw.

Byddwn yn parhau i sicrhau bod ein holl hysbysebion swyddi ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, a byddwn yn defnyddio hysbysebion Gymraeg yn unig yn y cyfryngau cyfrwng Gymraeg pan fydd hynny'n briodol. Os dynodir bod y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer swydd neu os bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer wedi nodi eu bod yn rhugl yn y Gymraeg, rhoddir prawf trylwyr ar ruglder eu hiaith lafar ac ysgrifenedig yn ystod y broses gyf-weld.

Ategir y gwaith hwn trwy fynd ati i chwilio am wirfoddolwyr Gymraeg i gefnogi ein gwaith yng Nghymru.

6. Hyfforddi a Datblygu

Bydd Oxfam Cymru yn gweithio i sicrhau bod pob aelod o staff a gwirfoddolwr yn nhîm Oxfam Cymru, p'un a ydynt yn gweithio yn y brif swyddfa yng Nghymru, yn gweithio gartref neu mewn lleoliad arall, yn derbyn rhaglen sefydlu a hyfforddiant er mwyn sicrhau eu bod yn deall y Polisi Iaith Gymraeg, yn ymrwymo iddo ac yn ei roi ar waith.

Darperir hyfforddiant a chymorth ynghylch defnyddio'r Gymraeg dros y ffôn ac mewn cyfarchion, trwy ddefnyddio technoleg newydd yn unol â'n polisi i leihau ôl troed carbon Oxfam.

Os bydd staff am ddefnyddio mwy o Gymraeg yn eu rôl, bydd rheolwyr llinell yn trafod yr anghenion o ran hyfforddiant a chymorth ac yn eu helpu hyd eithaf gallu Oxfam Cymru. Ni all Oxfam Cymru dalu am wersi iaith unigol ond bydd yn helpu staff â'u datblygiad, lle bydd hynny'n bosibl, a bydd helpu staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda'r cyhoedd neu staff sy'n cynrychioli Oxfam Cymru yn gyhoeddus yn flaenoriaeth.

Gweithio gyda phencadlys Oxfam GB ac Oxfam International

Datblygwyd y polisi hwn ar y cyd â nifer o adrannau Oxfam. Bydd Oxfam Cymru yn arwain ymgyrch gyfathrebu fewnol i sicrhau bod staff/gwirfoddolwyr Oxfam yn ymwybodol o'u hymrwymadau a'r amcan a bennwyd yn y polisi hwn.

Cyhoeddi

Mae Polisi Iaith Gymraeg Oxfam Cymru ar gael i'r cyhoedd ar dudalennau gwe [Oxfam Cymru](#), ac mae copïau wedi'u hargraffu ar gael hefyd yn y ddwy iaith yn swyddfa Oxfam Cymru yng Nghaerdydd.

Adborth

Mae Oxfam Cymru yn croesawu adborth ac awgrymiadau ynghylch ein polisi iaith Gymraeg. Anfonwch neges e-bost i'r cyfeiriad oxfamcymru@oxfam.org.uk.

Dylid cyfeirio unrhyw bryderon nad yw Oxfam yn cyrraedd y safonau targed a bennwyd yn y polisi hwn at Rachel Cable, Pennaeth Oxfam Cymru yn y cyfeiriad oxfamcymru@oxfam.org.uk neu trwy ffonio 02922678950 yn y lle cyntaf.

Cymeradwywyd gan:

Rachel Cable, Pennaeth Oxfam Cymru

Sam Dick, Dirprwy Gyfarwyddwr, Tîm Ymgyrchoedd, Polisi a Dylanwadu, Oxfam GB

Ionawr 2020
